

Papur Pawb

Pris: 50c

Rhagfyr 2013

Rhif 394



Ysgol Llangynfelyn - Ymweld â Siôn Corn - tud 5

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9

Ysgolion

tud 11

Y Gair Olaf

tud 12

Chwaraeon

CFfl yn Dathlu 60

Mae cyrraedd carreg filltir o bwys yn hanes unrhyw gymdeithas neu fudiad yn achlysur i lawenhau a dathlu wrth reswm. Yn ystod mis Tachwedd bu Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn dathlu chwedeg mlynedd ers ei sefydlu yn Hydref 1953 gydag arlwy o ddathliadau amrywiol.

Agorwyd y dathliadau gyda Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yng Nghapel Bethel ar nos Sul, Tachwedd 7fed, gyda Catrin Jenkins yn chwarae'r organ.

Ar nos Fercher 20fed o Dachwedd cynhaliwyd cyngerdd dathlu yn y Neuadd Goffa gydag aelodau'r Clwb yn diddanu ag eitemau amrywiol a lluniaeth. Arweinydd y noson oedd Dewi Jenkins, Tynygraig. Hawdd fyddai gweld Dewi ar lwyfan unrhyw noson lawen neu gyngerdd, roedd yn ddifyr ac yn broffesiynol dros ben. Cafwyd nifer o eitemau hyfryd, yn eu plith oedd Betsan Siencyn ar y fflirt, Glesni a Teleri Morgan yn llefaru a'r grwp llefaru i gyfeiliant a'r meim heb anghofio Geraint Jenkins yn adrodd digrif. Mrs Jane Jones, Pantlleinau oedd llywydd y noson a chafwyd araith amserol a diddorol ganddi am ei chyfnod hi fel aelod o'r Clwb. Siarsiodd hi yr aelodau presennol i barhau gyda'r cystadlu ac i fanteisio ar bob cyfle a gynigir iddynt gan y mudiad. Carai'r Clwb ddiolch iddi am ei gwasanaeth ac am ei rhodd hael.

Roedd nifer o'r eitemau ar noson y gyngerdd yn ffrwyth cystadlu'r Clwb yn Eisteddfod Sir y Ffermwyr Ifanc a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Bonrhydfendigaid ar ddiwedd mis Hydref. Bu'r aelodau yn cystadlu'n



frwd mewn nifer o gystadlaethau a daeth nifer dda ar y brig gan ddwyn clod i'w clwb. Cafodd Dewi Jenkins a Geraint Jenkins y drydedd wobwr am ddeialog ar y pryd, daeth Elen Thomas, Eisteddfa Gurig, yn gyntaf am ganu emyn ac yn ail ar yr unawd alaw werin a'r unawd allan o sioe gerdd. Bu ymarfer dwys iawn ar gyfer cystadleuaeth y sgets a daeth bechgyn y *synchronised swimming* i'r brig gyda'r syniad hynod wreiddiol gan Geraint Jenkins, Cerrigcyranau. Aeth bechgyn y sgets ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol y Ffederasiwn ym Mhafiliwn Môn a chipio'r ail wobwr. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

parhad tud 4

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr!



Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Tal-y-bont - tud 9

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	Arthwr Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,

Fe fydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed ar fis Medi'r 25ain, 2014 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi llyfr i nodi'r garreg filltir bwysig hon.

I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu darllenwyr o'ch plith a fu yn yr ysgol i anfon eu hatgofion, eu storïau a'u lluniau atom.

Fe allwch anfon eich cyfraniadau trwy'r post i'r cyfeiriad uchod, neu drwy e-bost at y

pennaeth Clive Williams i'r

cyfeiriad - wyddfa@ysgol.gymraeg.ceredigion.sch.uk neu at olygydd y llyfr meleriwynjames@googlemail.com

Fe hoffwn dderbyn y cyfraniadau erbyn mis Mawrth y 31ain, 2014.

*Yn gywir,
Clive Williams,
Meleri Wyn James*

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Nodwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2013 – dros £16,900 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 11eg 2014

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Dyddiadur

Rhagfyr

15 Bethel 2 Oedfa Goffa Dr

Gareth Hughes.

Nasareth Oedfa'r Ofalaeth

Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth

Eglwys Dewi Sant 11

Cymun Bendigaid

18 Neuadd Goffa, Talybont

8 yh

Gyrfa Chwist Dofednod

(Cymdeithas Sioe Talybont)

22 Bethel 10 Gweinidog (C)

Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 10 John Hughes

Eglwys Dewi Sant 5

Gwasaneth Carolau Teulu

24 Bethel 5.30 Gwasanaeth

Ysgol Sul

25 Bethel 10 Gweinidog

Eglwys Dewi Sant 8.30

Cymun Bendigaid

29 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 10 Glyn Morgan

Eglwys Dewi Sant 10

Gwasanaeth Undebol yn

Llangorwen

Eglwys St. Pedr, Elerch

Gwasanaeth

Carolau Blynnyddol

gyda

Pharti Plygain Penrhyn-coch

Dydd Sul, 15 Rhagfyr 2013

2.30 pm

Casgliad:

(Apêl Oxfam tua at drychineb

Ynysydd y Ffilipinannau)

I'w Osod

Tŷ Capel, Taliesin

I'w osod tymor hir o 1af

Ionawr, tŷ tair ystafell wely

wedi ei adnewyddu tu fewn yn

gyfan gwbwl.

Am fwy o wybodaeth cysyllter a

Brian Davies, ysgrifenydd

Rehoboth.

Ffôn 01970 832239

Ionawr 2014

5 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 10 Bugail

Eglwys Dewi Sant 11

Cymun Bendigaid

7 Sefydliad y Merched

Llanfach Taliesin 7 o'r

gloch

Sgwrs a lluniau 'Cymru

Tanddaearol' (James

Cartwright)

12 Bethel 5 Gweinidog

Nasareth 11.15 Bugail (C)

Rehoboth 10 Bugail

Eglwys Dewi Sant

YMDDIHEURIAD

Dymuna Papur Pawb

ymddiheuro i Sue Jones-

Hughes am y camgymeriad yn

ei henw yn y rhifyn diwethaf.

Nadolig Llawn a Blwyddyn

Newydd Dda i fy ffrindiau a

holl ddarllenwyr *Papur Pawb*

oddi wrth Kathleen Richards,

Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn

medru danfon cardiau eleni,

ond byddaf yn rhoi cyfraniad

tuag at elusen.



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd

Helen a Ceri, gyda Ceri'n

dylunio. Golygyddion mis

Ionawr fydd Medi James

(harryamedia@btinternet.com

832725), Mared a Llio, gydag

Elgan yn dylunio. Y dyddiad cau

ar gyfer derbyn newyddion fydd

dydd Gwener 3 Ionawr, a bydd y

papur ar werth ar 10 Ionawr.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2013/14

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth

gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon

ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Lowri Jones

Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

d/o Frongoch View, Tre'r Ddol, Machynlleth, Powys SY20 8PN

j.lowri@yahoo.co.uk

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 9 Ionawr 2014**

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Beverley Pritchard, Tre'r Ddôl, ar ddathlu penblwydd arbennig mis yma.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Dilwyn a Carys, Llys Eleri, Tal-y-bont ar ddod yn Daid a Nain unwaith eto. Ganwyd mab, Owain Hedd i'w merch Gwenan ac Aled yn Eglwysnewydd Caerdydd ar Tachwedd y 10ed, brawd i Mared Alaw, a chefnider i Iestyn ac Osian. Pob dymuniad da i'r teulu.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Claire Watkin, Heulfor, Pentrebach ar ei phenblwydd yn 21 ac i Richard John Jenkins, Ynysgreigiog ar ddathlu ei benblwydd yn 18.

Priodas Deiamwnt

Llongyfarchiadau i Tegwen a Goronwy Jones, Glasgoed, Tal-y-bont ar eu Priodas Deiamwnt ar ddydd Iau, Rhagfyr 12ed. Cyfarchion cynnes oddi wrth ffrindiau a'r teulu i gyd, sef y merched Gaynor, Eirian a Llinos a'u teuluoedd – Peter, Huw Gravell a Huw Dafydd, Catrin, Nia, Beca a Karl.

Parc Chwarae Bont-goch

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus pellach ar 24 Tachwedd yn Eglwys St. Pedr, Bont-goch i drafod y mater ymhellach. Cadeiriwyd gan Sean Dunne. Roedd nifer dda o'r pentref yn bresennol, ac etholwyd pwyllgor i weinyddu'r cynllun. Aelodau'r pwyllgor yw: Ffion Breese, Sian W. Davies, Cathy Jones, Mina Morel, Sion Pennant a Robert Evans. Bydd Emyr W. Davies yn gweithredu fel cyswllt gyda Chyngor Ceulanamaesmawr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Jeff Davies, 2 Ffordd y Gogledd, Tre'r Ddol wedi iddo golli ei fam, May Davies.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Rosalie, gynt o Nirvana, Tre Taliesin a Siôn Davies ar enedigaeth eu mab ddiwedd mis Tachwedd ac i Dad-cu a Mam-gu Bill ac Eiriona Metcalfe, Nirvana.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i William Jones, Bwlchdyddwyallt ar ddathlu penblwydd arbennig iawn.

Pobl a Phethe

**Priodas**

Daeth teulu a ffrindiau Chris Glover a Linsey Pope, 5 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont i ddathlu diwrnod eu priodas ar 23 Tachwedd. Priodwyd y ddau yn Swyddfa Gofrestru Aberystwyth a chafwyd y wledd yn Ngwesty y Belle Vue.

**Llwyddiant yn y Sioe Aeaf**

Daeth llwyddiant i Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ceredigion yn y Sioe Aeaf yn Llanellwedd pan ennillodd Beti Wyn Davies, cangen Taliesin o Sefydliad y Merched, y wobwr gyntaf am ei gosodiad blodau ar gyfer bwrdd Nadolig. Dyma hi gyda'r llywydd Cenedlaethol, Ann Jones.

**Clwb Nos Wener**

Manon Steffan Ros oedd yn difyrru aelodau Clwb Nos Wener y mis yma gyda'r gitarydd amryddawn, Elwyn Williams. Cafodd y gynulleidfa glywed amrywiaeth o ganeuon gwreiddiol a thraddodiadol a hefyd sesiwn holi dan arweiniad y golygydd Alun Jones.

Ffair Aeaf Frenhinol Cymru

Daeth llwyddiant i nifer o drigolion ardal Papur Pawb yn y Ffair Aeaf eleni eto. Yn eu plith mae Becca Llyr Jenkins, Dôl Pistyll yn yr adran Dofednod a Marion Evans, Tynant, Janet Jones Llwynglas a Dilys Morgan, Alltgoch yn yr adran goginio.

Gŵyl Cerdd Dant

Braf oedd gweld nifer o ieuencid yr ardal yn cystadlu yn yr Ŵyl eleni a gynhaliwyd ym mhafiliwn Bont. Yn eu plith oedd Esther Ifan, Medi Evans, Niambh O'Donnell, Alys Jones a Catrin Huws.

Cantores addawol

Llongyfarchiadau i Niambh O'Donnell ar ddod yn Zail mewn cystadeuaeth cerddorol a drefnwyd gan y Clwb Rotari yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Gwen Hughes, Coetmor a'r teulu ar farwolaeth Dr. Gareth Hughes. Cynhelir gwasanaeth coffa yn Capel Bethel am 2 o'r gloch ar ddydd Sul 15 Rhagfyr.

O'r ysbyty

Croeso adre i Mrs Mair Evans, Pantydwn sydd wedi treulio cyfnod hir yn yr ysbyty.

Hefyd i Mr Bob Southgate, Maesyderi a gafodd driniaeth yn ysbyty Abertawe.

Gwellhad buan i Mrs Barbara Jenkins, Cefngweiriog ac i Odette Moses, Maesyderi a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty.

CFFI yn Dathlu 60



I gloi'r dathliadau cafwyd cinio dathlu yng Ngwesty'r Marine fydd yn sicr o aros yn hir yn y cof. Y gwesty dan ei sang gyda bron i 130 o gyn aelodau ac aelodau presennol y clwb yn achub ar y cyfle i rannu atgof neu stori dros bryd bwyd blasus. Y gwr gwadd oedd Dai Jones, Llanilar a fu yn ôl ei arfer yn anerchlydd hwyliog. Aled a Caryl Hughes, Hafodau yw llywyddion eleni a chafodd bawb gyfle i flasu cacen arbennig y dathlu a wnaed gan Marion Evans, Tynant a addurnwyd yn gelfydd gyda logo'r Clwb. Wedi'r cinio cafwyd disgo hwyliog. Roedd tynnu llun swyddogol y cinio dathlu fel y medwrch ddyfalu yn dipyn o sialens i'r ffotograffydd!



Dewi Jenkins a Geraint Jenkins gyda llywydd y noson Jane Jones, Pantlleiniau (Cefngweiriog gynt)

I'r Swyddogion a fu'n cyfarfod yn gyson i drefnu'r cyfan, roedd llwyddiant y dathliadau yn ryddhad mawr ac yn ganlyniad teilwng i'w gwaith caled. Dymunaf Clwb ddiolch i bawb am bob cefnogaeth a chymwynas i sicrhau dathliadau cofiadwy.



Perfformio y meim

Cinio blynyddol Sioe Tal-y-bont

Cafwyd noson hwyliog dros ben yn y Llew Du ar nos Sadwrn 30 Tachwedd yng nghinio blynyddol y Sioe. Y gwr gwadd oedd y milfeddyg, Phillip Thomas a difyrwyd pawb gan ei anerchiad pwrpasol.



Ysgol Llangynfelyn



Priodas y Cyfnod Sylfaen



Plant Mewn Angen

Cyflwyno rhodd i Gwilym ac Eleri Huws

Daeth aeoldau Bethel ynghyd ar ddiwedd y gwasanaeth ar fore Sul 16 Tachwedd i ffarwelio â dau aelod ffyddlon a gweithgar. Cyflwynodd y Gweinidog lun gan Ruth Jên ar Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan. Dymunodd bawb yn dda iddynt yn eu cartref newydd ar gyrion Caerdydd.



Ysgol Llangynfelyn

Bags2School

Casglwyd llongd fan o sachau glas yn cynnwys dillad, bagiau, esgidiau a dillad gwely i gael eu gwerthu. Bydd yr ysgol yn cael cyfraniad am bob kilogram o bwysau. Diolchwn yn fawr iawn i bawb a ddaeth â'r sachau i'r ysgol.

Parti Tân Gwylt

Cynhaliwyd ein Parti Tân Gwylt blyneddol ar y 6ed o Dachwedd wedi'i drefnu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Er fod y noson yn wyntog iawn, cafwyd arddangosfa tân gwylt wych yng ngofal Malcolm Hayes. Diolchwn yn fawr iawn i gwmni Hayes McKenzie am noddi'r noson, i Linda Hicks am wneud y cawl blasus ac i archfarchnadoedd y Co-op a Morrisons am roi'r bara i ni. Gwnaethpwyd dros £380 ar y noson.



Priodas y Cyfnod Sylfaen

Fel rhan o'r gwaith ar y thema 'Hapusrwydd' cafodd plant y Cyfnod Sylfaen 'briodas' yng Nghapel Rehoboth. Paratodd y plant wahoddiadau i'r rhieni a daeth llawer o rieni a chymdogaion i weld y briodas. Roedd pob plentyn yn cymeryd rhan ond yn anffodus roedd y priodfab yn sâl ar y diwrnod, felly bu rhaid ffeindio priodfab arall yn gyflym! Diolchwn i'r Parchedig Wyn Morris am gynnal y briodas ac i'r rhieni a wnaeth y gacen briodas a'r lluniaeth nôl yn yr ysgol. Mwynhaodd y plant a'r rhieni yn fawr iawn.

Gala Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau i'r deg plentyn ag aeth i gynrychioli'r ysgol yn y gala nofio. Nofiodd bawb yn arbennig o dda ar y diwrnod.

Plant Mewn Angen

Gwisgodd y plant a'r athrawon eu pyjamas a'u 'onesies' i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Gwerthwyd cacennau a diod a chafwyd helpa drysor Pudsey ar dir yr ysgol. Codwyd £30 ar y diwrnod.

Llysgenhadon Efydd Chwaraeon

Dewiswyd Ben a Harvey i gynrychioli'r ysgol ar ddiwrnod i Llysgenhadon Efydd Chwaraeon yn Ysgol Plasrug. Ymunodd y bechgyn â disgyblion eraill o Flynnyddoedd 5 a 6 i ddysgu am sut i chwarae gemau tîm a sut i annog plant eraill i chwarae gemau yn ystod amser chwarae.

Panto 'Cawr y Gilfach'

Aeth Dosbarth Miss Jones i weld Pantomeim Cwmni Mega o 'Cawr y Gilfach' yn y Ganolfan Celfyddydau. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y weithgaredd.

Ymweld â Siôn Corn

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen gyda Dosbarth Cyfnod Sylfaen Ysgol Craig yr Wylfa i Goed Gogerddan i weld Siôn Corn. Cafwyd bore hyfryd yn y coed yn dilyn trywydd natur cyn cerdded i weld Siôn Corn. Darllenodd ef stori Nadoligaidd i'r plant a cafodd y plant anrheg Nadolig i fynd adref. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y trip.



Morlan

Canolfan fydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Cristnogaeth 21 yn Morlan** (7.30, 11 Rhagfyr) – Byw'r Cwestiynau
- **Plygain Morlan** (7.30, 18 Rhagfyr)
- **Noson Gwis Morlan** (7.30, 22 Ionawr) – cwis i gapeli ac eglwys lleol. Croeso i unrhyw un anfon tîm (neu dimau) o 4.
- **Diwrnod Cofio'r Holocaust** (12.00-1.30, 27 Ionawr) – cyfle i ymdawelu a chofio
- **Etty** (7.30, 30 Ionawr) – drama arbennig am lldewes ifanc oedd yn byw yn Amsterdam yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Abersystwyth SY23 2HH
01970-617956; morlan.aber@gmail.com



Aled Davies, Luke Wainwright a Sion Jenkins

Ennill Gwobr Genedlaethol

Mewn seremoni yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 8 Dachwedd, derbyniodd Luke Wainwright, cyn ddisgybl Ysgol Tal-y-bont, wobwr arbennig ar ran cwmni mēl 'Tropical Forest Products' sydd â'i ffatri ym Maesnewydd. Enillodd y cwmni wobwr 'Go Green Environmental Award' gyda'r IDA oherwydd eu bod wedi datblygu system ynni glân unigryw yn y ffatri. Yn flaenorol roeddent yn defnyddio ynni o'r grid cenedlaethol a oedd yn hynod o gostus, yn llai effeithiol ac yn niweidiol i'r amgylchedd.

Dychwelodd Luke i fyw i'r ardal ddwy flynedd yn ôl wedi bod yn teithio a gweithio o amgylch y byd. Ei rieni, Sarah Roberts a Dave Wainwright a sefydlodd y cwmni yn 1990 wedi iddynt fod yn byw yng Nghenia am 5 mlynedd. Eu bwriad wrth gychwyn y cwmni oedd helpu ffermwyr gwenyn tlawd Affrica.

Luke oedd Rheolwr y Prosiect Ynni newydd. Gosodwyd boiler bio-mas pwrpasol o Awstria sy'n defnyddio ynni gwyrdd, mewn lleoliad addas yn yr adeilad, sydd yn sicrhau nid yn unig eu bod yn arbed ynni yno bellach ond mae'r sustem fodern yn arbed 80% o CO2 a 90% o'r gost flaenorol. Cwmni o Borthaethwy oedd yn gyfrifol am y gwaith peiriannyddol a daw'r peledau arbennig ar gyfer y boiler o Rhuthun.

Mae angen gwres i doddi'r mēl sy'n cyrraedd mewn drymiau metel. Bydd 12 drwm, sef 4 tunnell o fēl yn cael ei doddi yno bob dydd. cyn ei roi mewn jariau a'u labelu.

Bellach daw'r mēl o Gymru, yr Eidal, Ffrainc a Seland Newydd yn ogystal ag Affrica. Mae'r cwmni'n hynod o lwyddiannus ac yn cyflogi 15 o weithwyr.

Gwerthir eu mēl a'u cwyr mewn siopau mawrion ac archfarchnadoedd megis Fortnum a Masons, Marks a Spencers, Waitrose, Lush a Body Shop.

Mae datblygu a chwblhau'r prosiect wedi rhoi cryn foddhad i Luke sydd nawr yn bwriadu chwilio am her arall ond y tro hwn yn yr Alban. Dymunwn yn dda iddo ef ac i gwmni 'Tropical Forest Products', Maesnewydd.

O.N – Er i Luke, sy'n dod o deulu di-Gymraeg, adael Ysgol Tal-y-bont yn 1992, roedd yn braf cyfathrebu ar lafar a thros y we yn Gymraeg yn unig gydag e'.



OrielWynMel

Cyfes newydd o 10 print A5
@£55.

ANRHEGION DELFRYDOL

ar gael o:
JI-BINC, ABERAERON
RHIANNON, TREGARON

www.orielwynmel.co.uk



Amddiffyn ein hunain rhag llifogydd

Ar fore heulog gaeafol, dydd Sadwrn 23 Tachwedd, daeth tua hanner cant o bobl ynghyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont i ymbaratoi rhag unrhyw lifogydd a ddaw i'r pentref eto yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r pentrefwyr a gafodd dŵr trwy'u tai ym mis Mehefin 2012 yn bresennol, yn ogystal ag eraill o ardaloedd 'sychach' Tal-y-bont sydd wedi gwirfoddoli i fod yn wardeiniaid llifogydd. Yn ogystal, roedd staff o Gyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd, gynt), Cyngor Sir Ceredigion a'r gwasanaethau brys yn rhan bwysig o'r digwyddiad.

Treuliwyd rhan gyntaf y bore yn y neuadd yn profi'r Cynllun Llifogydd Cymunedol sydd wedi'i lunio gan drigolion y pentref – gan ddychmygu gwahanol senarios a sut byddai modd ymdopi â nhw. Beth petai'r trydan neu'r signal ffôn yn methu? Beth petai llif y dŵr yn atal pobl rhag cyrraedd y Neuadd Goffa i gael lloches? Cododd nifer o syniadau da ar gyfer cryfhau'r Cynllun Llifogydd o'r trafodaethau hyn.

Yn ystod ail hanner y bore, aeth trigolion y tai a ddioddefodd y llifogydd ati i godi eu hamddiffynfeydd, er enghraifft gataiau atal dŵr



dros eu drysau. A chafodd y wardeiniaid weld ble caiff y cyfarpar ei storio a sut i'w codi.

Gorffennodd y digwyddiad gyda chinio ysgafn yn nhafarn y Llew Gwyn, a chyfle i ddiolch i'r holl gyfranwyr a gwirfoddolwr.

Does dim dwywaith y bydd Tal-y-bont yn llawer fwy parod os daw llifogydd i'n rhan eto. Mae hynny diolch i nifer o asiantaethau sydd wedi cynnig eu cyngor a chymorth, ond yn bennaf oll diolch i gefnogaeth a chydweithrediad rhagorol y gymuned ei hun.



loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

**STORFA
CARTREF a BUSNES**

Storio Hyblyg Diogel

Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion



**MID WALES
STORAGE**

STORFA CANOLGARTH CYMRU

Ffôn—01654 703592

TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi Gynhesu

Ar Werth

Bocsys, Bwrlwm Llapio a deunydd pacio

Ymwelwch â'r siop arlein

www.boxshopsupplies.co.uk

www.midwalesstorage.co.uk

Heddi y Dydd, Machynlleth, Powys, SY20 8JG



argraffu da am bris da



ylolfa

holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolf.com



Sefydliad y Merched Taliesin

Llwyddiant yn Rali'r Sir

Bu aelodau Sefydliad y Merched, Taliesin yn hynod lwyddiannus yn Rali'r Sir ddydd Sadwrn 16 Tachwedd yn Felinfach. Dyfarnwyd yr arddangosfa cydweithredol ar y thema 'Canol Gaeaf Noethlwm' yn ail allan o'r naw a ymgeisiodd. Ennillwyd sawl gwobr gyntaf, ail a trydydd yn y cystadleuaethau coginio, crefft a blodau gan gipio'r cwpan am y gangen gyda'r marciau uchaf. Yn yr adran gosod blodau, Beti Wyn fydd yn cynrychioli'r Ffederasiwn yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd a hi hefyd ennillodd y darian am yr eitem orau yn y Rali. Felly, llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau fu'n cystadlu ac yn cefnogi gyda'r paratodau yn ystod yr wythnosau a aeth heibio.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhaliwyd gwasanaeth coffa a diolchgarwch ar ddydd Sul 10 Tachwedd 2013 yn y Neuadd Goffa. Roedd y gwasanaeth yn cofio'n arbennig y rhai hynny o Dal-y-bont a roddodd eu bywydau dros ein rhyddid yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parch Peter Jones, ac fe gychwynnodd am 10:45yb gyda'r emyn agoriadol yn cael ei chwarae ar y piano gan Mrs Glenys Edwards.

Darllenwyd efengyl Sant Mathew o'r Beibl yn y Gymraeg gan y Cyng Nest Jenkins, a dilynwyd hyn gydag emyn yn y Gymraeg a'r Weithred o Goffau.

Darllenodd Mr Goronwy Jones y Rhestr er Anrhydedd ac i ddilyn cafwyd cân ar y trwmpeid. Aeth Mr Jones ymlaen gyda'r Anogaeth ac fe nodwyd y ddau funud o dawelwch am 11:00yb. Dilynwyd hyn gan y Beddagraff Kohima ac yna chwaraewyd y Reveille.

Gosodwyd y ddwy dorch, a ddarparwyd gan y Cyngor Cymuned, gan Mr Bob Southgate a Mr John Morgan.

Yna, fe arweiniodd y Parch Peter Jones y Weithred Ymrwymo a dilynwyd hyn gyda darlenniad o'r Beibl yn y Saesneg gan Janet Morgan. Myfyriwyd ar y darlenniad gan y Parch Peter Jones a dilynwyd hyn gan weddiâu a'r fendith derfynol.

Yn ystod yr emyn olaf, cynhaliwyd y casgliad ac fe godwyd £131.51 tuag at Apêl Pab i'r Llang Brydeinig Frenhinol.

Diolch i chi am y cyfraniad hael tuag at yr achos teilwng hwn.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mis diwethaf, soniais yn y golofn hon am yr ergydion i Geredigion a ddaeth yn yr hydref gan gwmni bysiau Arriva a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. O ran ein gwasanaethau bws, daeth newyddion da fod Llywodraeth Cymru am roi cyllid i gynorthwyo'r Cyngor Sir i ddarparu gwasanaethau newydd yn lle'r rhai a gollwyd. Mae manylion yn dal i'w cadarnhau, ond o leiaf y bydd gwasanaeth yn parhau, a gallwn weithio tuag at wella'r ddarpariaeth yn y tymor hir. Mae'r sefyllfa iechyd yn dal yn destun pryder, er i Fwrdd Hywel Dda feddaldu ei agwedd rywfaint ar lawdriniaeth orthopaedig yn dilyn pwysau gwleidyddol. Bydd rhaid ymgyrchu'n gyson i sicrhau fod ardaloedd fel Ceredigion yn flaenoriaeth, ac yn ddiweddar cynhaliais gyfarfod rhwng y Gweinidog Iechyd a nifer o feddygon uchel-eu-parch o'r canolbarth er mwyn amlinellu'r sialensau y mae'r gwasanaeth iechyd yn eu wynebu.

Roeddwn yn falch iawn o groesawu grwpiau eraill o Geredigion yn ddiweddar hefyd, sef ysgolion Penweddig a Llanbed. Roedd ymweliad Penweddig yn rhan o ddathliadau pen-blwydd yr ysgol yn 40 oed, a disgyblion Bro Pedr yn cymryd rhan yn rhaglen deledu 'Hacio' ar S4C. Ond yn gynyddol mae'n braf gweld criwiau o wahanol fyfyrwyr ysgol yn ymweld â'r cynulliad i ddysgu am sut y mae democratiaeth Cymru yn gweithio, yn aml fel rhan o'u astudiaethau Bagloriaeth. Mae croeso mawr i grwpiau i ymweld – cysylltwch gyda'm swyddfa ar 01970 624 516 i drefnu.

Un agwedd sy'n rhoi balchder mawr i Gardi y dyddiau yma yw llwyddiant nifer o'n mentrau cydweithredol. Rwy'n aml yn credu nad oes unman yng Nghymru sy'n cymharu o ran gallu'r gymuned i gyd-dynnu i gyflawni rhywbeth gwerth-chweil. Mae Fforwm Penparcâu yn mynd o nerth i nerth, er enghraifft, ac felly hefyd 'Bws y Bryniau' yn ardal Pontarfynach a dyffryn Rheidol. Gwyb oedd gweld dau fenter cymunedol yn derbyn cydnabyddiaeth yn ddiweddar, gyda mudiad Whilen y Porthmyn yn Nhregaron yn ennill grant loteri, a 4CG yn Aberteifi cael ei ddisgrifio fel 'ysbrydoliaeth cenedlaethol' wrth ennill gwobr am waith adfywio trefol. Rhaid hefyd nodi perfformiad gwyb un o fudiadau gwirfoddol mwyafr llwyddiannus Ceredigion – y Ffermwr Ifanc – yn eisteddfod genedlaethol y mudiad yn Sir Fôn.

Felly llongyfarchiadau gwresog i bawb sy'n rhoi mor hael o'u hamser i gynnal gweithgareddau yn ein cymunedau, a ga i ddymuno Nadolig Llawn i chi i gyd.



Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyfchmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

mudiad meithrin
arbenigwr y blynyddoedd cynnar

Camwrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwyb ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: **post@camwrthgam.co.uk**

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:
www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 **www.davmorgarage.co.uk**

Ysgol Tal-y-Bont

Velko'n gadael

Gyda thristwch mawr y bu'n rhaid ffarwelio â Velko ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae Velko wedi symud i Sofia, prifddinas Bwlgaria a bydd yn byw yn ei drydedd gwlad ar ôl iddo fyw yn America a Chymru wrth gwrs. Cyflwynodd Caoimhe a Finley anrheg bach i Velko i'w atgoffa o'i gyfnod gyda ni yn Ysgol Tal-y-bont.

Gala Nofio'r Urdd

Bu pump o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Gala nofio'r Urdd ar y 13eg o Dachwedd. Roedd hon yn gystadleuaeth ranbarthol gyda phob ysgol yng Ngheredigion yn cystadlu ac roedd y safon yn eithriadol uchel. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gymryd rhan. Daeth Oisín yn 2il yn y dull broga i fechgyn blynnyddoedd 3 a 4 ac yn 5ed yn y dull cefn a Nia'n 9fed yn y dull pili pala i ferched blynnyddoedd 5 a 6.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu cyfuno'r diwrnod rhyngwladol gyda diwrnod Plant Mewn Angen gan ofyn i bawb (staff a disgyblion) i wisgo gwisg o Brasil. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn a chodwyd £55 i blant mewn angen.

Hoci

Mae'r tîm hoci'n cael llwyddiant yn y gemau bob nos Wener gan ennill pob gêm ond un hyd yn hyn. Does dim rhyfedd fod Antony a Shelley Foulkes wedi cynnig noddïr crysau newydd hyfryd yma!

Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhian Jones am gynnal yr hyfforddiant bob nos Fercher ac i Miss Morgan am reoli'r tîm yn ystod y gemau. Mae'n braf gweld nifer fawr o blant yn mynychu'r hyfforddiant yn wythnosol.

Ysgol Eco

Poster gwyth Finlay Saycell wnaeth ennill cystadleuaeth Ysgol Eco'r ysgol. Mae poster Finlay bellach ar gael i bawb ei weld yn neuadd yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr Finlay.

Goleuo Coeden y Pentref

Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl y gymuned yn dod i weld plant yr ysgol yn perfformio yn y Neuadd Goffa eleni eto.

Hoffwn ddiolch i'r fawr iawn i'r staff am baratoi'r eitemau. I bawb sydd wedi helpu gyda'r hyfforddi ac yn enwedig i'r plant am eu cyfraniadau amrwyol. Uchafbwynt y noson oedd gweld Tia a Fabien, Llysgenhaddon yr Ysgol, yn cynnau'r golau.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Mainc Gyhoeddus

Atgyweiriwyd yr hen fainc oedd ar y Patshyn Glas, a bellach mae hi'n barod i'w symud. Cytunwyd i'w lleoli ar bwys hysbysfwrdd cyhoeddus Bont-goch, a chafwyd sêl bendith Adran Prifffyrdd Cyngor Ceredigion i hynny. Cynigiodd y Cyngorydd Emyr Davies ofalu, ar ran y Cyngor, am y gwaith o symud, peintio a gosod y fainc yn ei lleoliad newydd.

Maes Chwarae Bont-goch

Adroddodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn iddi hi a'r Cyngorydd Emyr Davies fynychu cyfarfod agored ddiwedd Tachwedd i drafod cynlluniau sydd ar droed i sefydlu maes chwarae yn Bont-goch. Yn y cyfarfod enwebwyd aelodau i Bwyllgor Cae Chwarae Bont-goch i awgrymu pa offer i'w archebu gyda'r cyfraniad o £20,000 gan D r Cymru ac unrhyw gyfraniadau ariannol eraill y llwyddir i'w ddenu. Cytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai trosglwyddo'r cae i ofal Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ac i'r Cyngor fod yn gyfrifol am gostau cynnal a chadw, yswiriant ac yn y blaen. Y gobaith yw y bydd y gwelliannau i'r gwaith d r wedi eu cwblhau erbyn Gwanwyn 2015 ac y bydd modd agor y maes chwarae newydd erbyn gwyliu haf yr ysgolion.

Cyllideb 2014/15

Cyflwynodd y Clerc Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014/15 gan dynnu sylw'r aelodau at y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y Cyngor wedi gwario dros £10,000 yn fwy na'r disgwyl, ond pan dderbynnir arian grant Project Balchder Pentrefi ac ad-daliad TAW ar y gwariant ar y project, rhagwelir y bydd peth arian mewn llaw ar ddiwedd Mawrth 2014. Cytunwyd i ohirio cadarnhau'r Gyllideb derfynol tan y cyfarfod nesaf.

Archifau'r Cyngor

Adroddodd y Clerc iddo drosglwyddo detholiad o archifau Cyngor Ceulanamaesmawr i Archifdy Ceredigion ar adnau. Er mai eiddo'r Cyngor Cymuned yw'r dogfennau o hyd, byddant bellach yn cael eu cadw mewn man mwy priodol o ran diogelwch a chadwraeth; byddant hefyd ar gael i aelodau'r cyhoedd eu hastudio.

Twrbîn Gwynt

Cais Cynllunio: Codi turbin gwynt sengl 500KW ar dir Llety Ifan Hen, Bont-goch.

Cyflwynid y cais cynllunio hwn am yr ail waith o fewn ychydig fisoedd, a chan nad oedd unrhyw newid o ran lleoliad, maint nac uchder y twrbîn dan sylw, cytunwyd i anfon yr un ymateb â'r tro blaenorol, sef nad oedd gan y Cyngor unrhyw sylw i'w wneud.

Golau Stryd

Nododd y Cyngorydd Nest Jenkins nad oedd unrhyw lampau stryd rhwng Brynhyfryd a'r Llew Du, a chan fod nifer fawr o geir wedi'u parcio ar ochr y ffordd wedi iddi nosi roedd gwir angen lamp stryd i oleuo'r ffordd ar gyfer cerddwyr. Awgrymwyd y posibilrwydd o osod lamp newydd gyferbyn â'r tro i glos Caeau'r Llew Du. Cytunwyd i holi Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir pa mor ymarferol fyddai cael lamp yn y lleoliad hwn.

Diolch

Diolchodd Gwilym Huws i'r aelodau am y fraint o gael gwasanaethu fel Clerc y Cyngor am gyfnod o chwe blynedd, gan ddweud ei fod wedi cael boddhad mawr wrth y gwaith. Dymunodd yn dda i'r Cyngor, ac i Lowri Jones, y Clerc newydd.



Aelodau o Cyngor Bro yn anrhegu Gwilym Huws mewn cinio ffarwel a gynhaliwyd yng Ngwesty Llew Du.

Ysgol Tal-y-Bont



Velko'n gadael

Ysgol Eco



Gala Nofio'r Urdd



Hoci




Diwrnod Plant Mewn Angen



Priodas Dosbarth

Ein thema tymor yma ydy hapusrwydd ac fel rhan o waith personol a chymdeithasol y Cyfnod Sylfaen cynhaliwyd 'priodas dosbarth' ar Ddydd llun tachwedd 25ain. Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Bethel ac yna gwledd yn y Llew Du. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r capel am adael i ni benthg y capel am y prynhawn a hefyd diolch yn fawr iawn i rieni Efa yn y Llew Du am adael i ni gael gwledd yno ac am wneud cacen priodas i'r plant.



Logo newydd Cylch Meithrin Tal-y-bont – tud 10



Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Tal-y-bont

Daeth nifer dda o rieni a ffrindiau'r Cylch Meithrin ynghyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Lun 9fed o Ragfyr am un o uchafbwyntiau'r calendr Nadolig. Cafwyd perfformiadau cofiadwy gan blant y cylch yn ogystal â lluniaeth blasus a chyfle i gefnogi'r Cylch trwy brynu o'r stondinau a'r raffl. Diolch yn fawr i Sian, Anwen, Elliw a Gaenor am eu gwaith caled ac i'r rheini fu'n cynorthwyo ar y noson.



Stondin Papur Pawb

Ffair y Neuadd

Llwyddwyd i godi £1,202.62 yn Ffair y Neuadd eleni. Dymuna aelodau'r Pwyllgor Rheoli ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y ffair. Bydd yr arian a godir yn ffair bob blwyddyn yn mynd tuag at gynnal y Neuadd Goffa trwy gydol y flwyddyn, a chan fod y costau cynnal a chadw yn codi'n flynyddol, bydd arian y ffair yn ein galluogi i gadw prisiau llogi'r Neuadd yn rhesymol i gymdeithasau lleol. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ymhob ffordd tuag at wneud y ffair yn llwyddiant.

Logo Newydd Cylch Meithrin Tal-y-Bont

Pleser yw cyflwyno logo cyntaf a newydd Cylch Meithrin Tal-y-bont. Yn ystod ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol diweddar pwysleisiwyd yr angen am hunaniaeth swyddogol i'r Cylch gan y Pwyllgor, rhieni a staff. Dyma ddechrau ar y sialens o grynhoi syniadau! Efallai bod creu logo o'r fath yn fy ngwaed gan i mi ennill cystadleuaeth pan yn ddeg oed i gynllunio logo i'n ysgol gynradd. Yr hen goeden dderwen a'i changhennau gofalgwr oedd hunaniaeth Ysgol Gynradd Bynherbert ger Llanrhystud i mi. Hyd yn oed chwarter canrif yn ddiweddarach pan yn mynd ar wibdaith i'n hen aelwyd enedigol i hel atgofion gyda Glain, Ela a Swyn saif yr hen dderwen yn gadarn er bod drysau'r ysgol wedi hen gau.

Beth felly am hunaniaeth i'r Cylch Meithrin yma yn Nhal-y-bont? Pan yn crynhoi syniadau roeddwn am gynnwys yr hyn mae'r plant yn eu gweld bob dydd wrth deithio i'r Cylch boed o'r gogledd neu o'r de. Yr hyn maent yn eu gweld wrth iddynt chwarae yn yr ardd y tu ôl i'r Tŷ Sbrî. Yn rhan anatod o hunaniaeth a thirlun y pentref a'r ardal, rhaid oedd cynnwys y melinau gwynt. Dyna ddechreuad ar y logo! Ond beth nesa? Wrth fynd am dro o amgylch Tal-y-bont a chymryd yr amser i sefyll a sylwi megis o gopa Allt-y Crib neu yn nyfnder Braich Garw, mae gwyrddni'r caeau a'r tirlun yn amlwg. Ac er nad ydynt fel ardal yn profi'r tywydd gorau bob amser, mae'r awyrgylch o fewn pedair wal y Cylch yn llawn heulwen o hyd!

Felly...melinau gwynt, haul a chaeau gwyrdd...sut i'w trefnu mewn i logo?

Wedi i mi ddarganfod syniadau ar gyfer y cynllun dyma mynd ati i'w lunio a'i roi at ei gilydd. Gweler y cynigion cyntaf! Yna, wedi bodloni ar siap y logo dyma fi ar wib draw i weld Ceri Jones, Pistyll-y-Llan gyda'r cynllun i weld beth fyddai'r cam nesaf i wireddu'r logo. Yn ffodus roedd Ceri yn hoff o'r cynllun felly nid oedd rhaid mynd nôl i'r "drawing board" a dechrau eto! Aeth â'r braslun at Ruth Jên a fyddai yn gosod ei dawn creadigol, artistig ar y cynllun. O fewn dim amser dyma'r e-bost yn fy nghyrraedd gyda'r logo yn atodedig. Hyfryd oedd gweld logo Cylch Meithrin Tal-y-bont yn fyw trwy law gelfydd Ruth Jên. Hoffwn ddiolch iddi am aros mor dryw i'r cynllun gwreiddiol. Mae diolch mawr yn mynd i Ceri ac i Ruth Jên am iddynt roi o'i hamser yn rhad ac am ddim i'r broses o greu y logo i'r Cylch Meithrin. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth parod yn fawr ac mae'r Pwyllgor, rhieni a staff y Cylch wrth eu boddau gyda'r hunaniaeth swyddogol, newydd.

Non Jones, Ysgrifennydd

Diwrnod agored yn Llanerch Clwydau, Bontgoch

Daeth bugeiliad 'Defaid Mynydd Cymreig y Pum Sir' (Arfon, Ceredigion, Dinbych, Meirionnydd a Sir Drefalwyn), i ardal Bontgoch ar ddydd Sadwrn olaf mis Medi. Trefnwyd y diwrnod gan Gymdeithas Defaid Mynydd Sir Ceredigion a Moss Jones, Ysgrifennydd Cymdeithas y Pum Sir. Diolchwyd i deulu Penbanc, Penrhynoch, sef Alan a Shân James a'r teulu i gyd am dderbyn y gwahoddiad i gynnal y diwrnod agored.

Tad Alan oedd un o aelodau cyntaf y Gymdeithas pan y dechreuwyd hi nôl yn y chwechdegau. Croesawyd pawb i Llanerch gan y cadeirydd Huw Davies, Llety Ifan Hen. Yna cyflwynwyd Alan Penbanc gan y Llywydd, Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail. Rhoddodd Alan hanes y ddiadell ac eglurodd y dull o ffermio yn Llanerch. Uchafbwynt y dydd i bawb oedd cael gweld y ddiadell a chael cyfle i fynd ar daith o gwmpas y fferm. Gwelwyd golygfeydd anhygoel yr ardal a Bae Ceredigion o ben y brynau.

Cafwyd arddangosfa gan Gymdeithas Cŵn Defaid Cymreig yn ystod y prynhawn hefyd, lle gwelwyd cŵn wrth eu gwaith yn trafod helfa o 800 o ddefaid.



Cyril Lewis, Cadeirydd y Pum Sir; Huw Davies, Llety Ifan Hen, Cadeirydd Ceredigion; Alan James, Penbanc a Gwilym Jenkins, Llywydd Ceredigion



Ynyr, Becca, Efa ag Ela yn arwyddo Llyfr Gwyn y Plant

Llyfr Gwyn Caerfyrddin yn Nhal-y-bont

Daeth y Prifardd Mererid Hopwood atom i Fethel ar fore Sul 16 Tachwedd. Thema'r gwasanaeth a drefnwyd gan Philip Davies oedd Rhyfel a Heddwch. Yn ei haraith siarsodd Mererid ni fel Cristnogion i ofyn y cwestiynau iawn megis pam mae angen arfau niwcliar a phwy roddodd ganiatâd i brofi awyrennau dibelot ar dir ein gwlad yn Aberporth. Roedd Mererid wedi dod a Llyfr Gwyn Caerfyrddin i'r gwasanaeth. Mae Caerfyrddin yn enwog am ei Lyfr Du, sef un o'r llawysgrifau Cymraeg hynaf yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif. Nawr mae gan y dref y Llyfr Gwyn a'r nod yw y bydd y gyfrol yr un mor bwysig nid yn unig yn hanesyddol, ond ar fel tystiolaeth o'r alwad am heddwch cyfoes.

Mae'n llyfr cain iawn a'i rwymiad gwyn yn arwydd o burdeb a heddwch. Y bwriad yw rhoi cyfle i bobl Cymru arwyddo'r ddogfen gan



Tegwen a Goronwy Jones yn arwyddo y Llyfr Gwyn

obeithio y bydd y Llyfr Gwyn yr un mor werthfawr mewn oesoedd i ddod a'i ragflaenydd. Ar derfyn y gwasanaeth ychwanegwyd at y miloedd sy eisoes wedi llofnodi ac mae'n braf dweud bod tudalen o enwau lleol nawr yn rhan o'r gyfrol.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cafwyd prynhawn difyr yng nghyfarfod Cymdeithas y Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 12 Tachwedd, pan groesawyd Lyn Ebenezer, Pontrhydfendigaid, atom. Traddodwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod. Cafwyd prynhawn o chwerthin wrth i Lyn adrodd storiâu difyr am gymeriadau ardal ei blentyndod, a'r dywediadau doniol a adroddwyd ganddynt. Diolchwyd iddo am brynhawn pleserus iawn gan Mai Leeding, Non Griffiths, Eirlys Jones a Daphne Farthing oedd yng ngofal y te.

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Merched y Wawr, Tal-y-bont

Braf oedd cael estyn croeso i Alun Jones atom nos Lun, 18 Tachwedd. Mae llawer yn yr ardal yn ei adnabod fel brawd Ellyw, Tanyrallt. I roi enw swyddogol iddo, ef yw Prif Weithredwr Menter a Busnes, ond y noson yma cawsom ei adnabod fel Alun Glanmerin. Cafodd Alun ei fagu yng Nghwm Llyfnant ac ar ôl treulio rhai blynyddoedd tu allan i'r cwm daeth yn ôl i'r hen gartref gan adnewyddu yr hen dŷ fferm, sef Glanmerin. Erbyn hyn mae ef ac Iola, ei wraig a'r plant wedi ymgartrefu yno ac yn gaffaeliad i'r ardal. Diddorol oedd clywed am y gwaith adnewyddu a sut y llwyddodd i gael y deunyddiau angenrheidiol yn lleol. Defnyddiwyd hen ddulliau i gadw cymeriad y lle ond heb esgeuluso cyfleusterau yr oes hon gyda'r canlyniad fod yr hen aelwyd yn foethus a chartrefol. Diolchwyd iddo gan Diana Jones.

Clwb Gwawr y Pennau

Aeth saith o aelodau Clwb Gwawr y Pennau i Henffordd ar ein trip blynyddol. Cafwyd dau ddiwrnod prysur iawn yn siopa, mwynhau prydau o fwyd Eidalaidd a Thai, ymweld â'r Gadeirlan a gweld y 'Mappa Mundi' enwog, edrych o gwmpas y ffair fwyd - 'Taste of Herefordshire' a gweld arddangosfa goginio gan y Baker Brothers. Bydd ein cyfarfod nesaf yn 'Blue Island Ceramics', Ynyslas ar y 3ydd o Ionawr.



Aelodau o Glwb Gwawr y Pennau wedi dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar stryd fawr Henffordd

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Gwasanaeth Scania ARTHUR MORGAN



Pencefnw, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Y Gair Olaf



Rydw i newydd ddod nôl o Baris ar ymweliad addysgiadol gyda grŵp o athrawon o saith gwlad yn Ewrop - Iwerddon, Ffrainc, yr Eidal, Twrci, Ffindir, Groeg ac, wrth gwrs, Cymru, yn cynnwys dwy ysgol o Geredigion. Yng nghanol bwrllwm ardal ddiwylliannol Monmartre, gyda'i chaffis a'i siopau di-ri a'i artistiaid stryd, ymwelon ni ag ysgol rue Houdon. Ysgol gynradd gyffredin iawn gyda phlant hyfryd - plant yn union fel ein plant ni - plant yn canu caneuon o groeso, yn rhedeg o gwmpas yn chwarae ar eu hiard fechan ac yn edrych ymlaen at y Nadolig. Wrth gael ein tywys o gwmpas yr ysgol, gwelais gofeb fechan ger y drws ffrynt gydag enwau wyth o blant arni:

Thérèse - 7 oed

Thérèse - 12 oed

Adrienne - 13 oed

Frajda - 16 oed

Charlotte - 13 oed

a'i chwaer fach 7 oed Rachel

Berthe - 13 oed

a'i chwaer Madeleine - 10 oed

Nid yw fy Ffrangeg i yn dda iawn ond roedd geiriau ar y gofeb yn amlwg iawn ac yn anffodus yn gyfarwydd i mi. Gofynnais i athrawes o'r ysgol gyfieithu'r geiriau. Esboniodd fod y gofeb i gofio am yr 11,000 o blant Ffrengig a laddwyd yn Auschwitz rhwng 1942 a 1944 oherwydd eu bod yn Iddewon. Daeth 700 o'r plant yma o ardal yr ysgol - y 18fed Arrondissement o gwmpas Monmartre a'r Sacré Cœur. Roedd yr wyth plentyn a enwyd ar y gofeb yn ddisgyblion yn yr ysgol. Geiriau olaf y gofeb oedd: 'Ne les oublions jamais' - 'peidiwch byth ag anghofio'.

Rhian Nelves



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774



Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Barry Southgate yn gyntaf i'r bêl.

Tal-y-Bont yn y Tywyllwch

Mae'n amlwg mai tîm sy'n mwynhau chwarae gemau cynghrair yw Tal-y-bont y tymor hwn gan mai siomedig iawn fu'r canlyniadau yn y gemau cwpan. Serch hynny, bu'r tîm yn anffodus braidd i beidio â chadw ei le yng nghystadleuaeth cwpan Emrys Morgan.

Ar 9 Tachwedd cafwyd gêm ryfeddol oddi cartref yn erbyn Bow Street. Gyda'r sgôr yn 2-2 yn ystod amser ychwanegol, penderfynodd y dyfarnwr y dylid rhoi'r gorau i'r gêm gan ei fod yn rhy dywyll iddo weld y chwarae. Cynigiodd y gellid cael canlyniad drwy gynnal cystadleuaeth giciau o'r smotyn ond gwrthodwyd hwn gan Bow Street. Cynhaliwyd yr ail-chwarae, eto yn Bow Street, ar Sadwrn olaf y mis, a'r tro hwn roedd y tîm cartref yn rhy dda i fechgyn Tal-y-bont gan ennill 3-0.


Stori wahanol iawn fu hi yn y gynghrair, gyda Thal-y-bont yn ysgubo i frig yr ail adran gyda dwy fuddugoliaeth swmpus. Curwyd eilyddion Llanilar 7-0 ar 16 Tachwedd a'r Sadwrn canlynol llwyddwyd i drechu un o geffylau blaen yr adran, Eilyddion Penparcau. Er mai 5-1 oedd y sgôr yn y diwedd, roedd angen i Dal-y-bont fod ar eu gorau i gipio'r pwyntiau.

Er bod Tal-y-bont ar frig yr adran ar ddiwedd

Tachwedd, wedi Sadwrn cyntaf Rhagfyr, roedd Eilyddion Aberdyfi wedi'u goresgyn drwy ennill pwynt yn erbyn tîm y Brifysgol. Nid oedd Tal-y-bont yn chwarae'r diwrnod hwnnw ac mae gan y tîm ddwy gêm mewn llaw ar y bechgyn o Feirionydd. Mae 'na chryn edrych ymlaen felly i'r gêm rhwng Tal-y-bont ac Aberdyfi ar ddydd Sadwrn 14 Rhagfyr ar Gae'r Odyn Galch (y gic gyntaf am 2.00). Byddai buddugoliaeth i Dal-y-bont yn anrheg Nadolig berffaith i dîm y pentref.



Jamie Barron yn arbed wrth draed un o flaenwyr Penparcau.



Capten Glwb Golff Borth ac Ynyslas

Harri James, Llannerch, Tal-y-bont, sydd newydd ddechrau ar ei flwyddyn yn gapten ar Glwb Golff Borth ac Ynyslas. Pob dymuniad da iddo.



Dylan, Iestyn, Ieuan, Tomos a Seren

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont

Dyma rhai o chwaraewyr timau Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont yn eu siacedau glaw newydd. Rhodd yw'r rhain i bob chwaraewr gan y clwb a brynwyd o'r elw a wnaed ar ddiwrnod Gŵyl Pêl-droed Tal-y-bont.

Hefyd diolch i Geraint James, Golchdy Llanbadarn am noddi *hoodies*. Bydd rhain yn siŵr o gadw pawb yn gynnes dros y gaeaf. Diolch hefyd i Moduron Wynford Williams am noddi trowsusau glaw i'r tim dan 12.

Chwaraewr y mis

Mae Llion Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais wedi ei ddewis yn chwaraewr gorau y mis i dîm cyntaf Machynlleth yng Ngyngghrair Canolbarth Cymru Spar. Llongyfarchiadau mawr i ti Llion.

